

# 2 Vision statement

---

## 2.1

### Vision statement

Caerphilly County Borough Council aims to provide local residents and visitors to the borough with sustainable opportunities to access and enjoy the 'countryside in their close locality'. In particular this Improvement Plan will aim to ensure that access opportunities within the area, for both new and existing networks meet the present and likely future needs of the public for outdoor recreation, exercise and general travel. The Authority will ensure where practicable, to implement cost effective measures in accordance with the Disability Discrimination Act 1995 (DDA).

The LAF has supported the Authority's production of this RoWIP in identifying the issues to be considered during the life of the plan. Consideration has also been given to user survey returns when establishing the key issues in this RoWIP.

## 2.2 OBJECTIVES

- To raise the importance and profile of the local rights of way network as an alternative, healthy, safe and sustainable way to travel.
- To continually improve the network to encourage more people to change their modal habits and travel patterns.
- To continually assess future demands and the different needs and abilities of existing and future users of the local rights of way network.

## 2.3 POLICY STATEMENTS

- i. To create and maintain a safe and sustainable network for bona fide users to suit the needs of different user groups.
- ii. To create an open and accessible network for all users and identify missing links in the network for all types of user.
- iii. To develop a communication strategy to maximise the involvement and engagement with local communities in developing the rights of way network.
- iv. To identify and promote routes for public use and create confidence while using the network.
- v. To develop and maintain an accurate definitive map and statement.
- vi. To resolve conflicts between users and landowners, whilst developing an understanding of practical solutions to assist landowners and the public to ensure a safe, usable and trouble free network.

# 2 Datganiad o weledigaeth

## 2.1

### Datganiad o Weledigaeth

Nod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw cynnig i'r trigolion lleol ac i bobl sy'n ymweld â'r fwrdeistref gyfleoedd cynaliadwy i fynd i 'gefn gwlad sy'n agos iawn atynt' a'i fwynhau. Yn benodol, nod y Cynllun Gwella hwn fydd sicrhau bod y cyfleoedd am fynediad yn yr ardal, ar gyfer rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes a rhai newydd, yn diwallu anghenion y cyhoedd heddiw a'u hanghenion tebygol yn y dyfodol am hamdden yn yr awyr agored, ymarfer corff a theithio'n gyffredinol. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau, lle bo'n ymarferol, y gweithredir mesurau cost-effeithiol yn unol â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (DGA).

Mae'r FfMLI wedi cynorthwyo'r Awdurdod i gynhyrchu'r CGHT hwn trwy nodi'r materion y dylid eu hystyried yn ystod oes y cynllun. Rhoddwyd sylw hefyd i ffurflenni arolwg defnyddwyr wrth benderfynu ar y prif faterion yn y CGHT hwn.

## 2.2 AMCANION

- Codi pwysigrwydd a phroffil y rhwydwaith hawliau tramwy lleol fel ffordd amgen, iach, diogel a chynaliadwy o deithio.
- Gwella'r rhwydwaith yn barhaus er mwyn annog mwy o bobl i newid eu harferion moddol a'u patrymau teithio.
- Asesu'n barhaus y galwadau yn y dyfodol a gwahanol anghenion a galluoedd defnyddwyr y rhwydwaith hawliau tramwy lleol heddiw ac yn y dyfodol.

## 2.3 DATGANIADAU POLISI

- Creu a chynnal a chadw rhwydwaith diogel a chynaliadwy i ddefnyddwyr dilys i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau defnyddwyr.
- Creu rhwydwaith agored a hygrych i bob defnyddiwr a chanfod bylchau yn y rhwydwaith i ddefnyddwyr o bob math.
- Datblygu strategaeth cyfathrebu i sicrhau bod y cymunedau lleol yn cymryd rhan mor fawr ag sy'n bosibl wrth ddatblygu'r rhwydwaith hawliau tramwy.
- Canfod a hyrwyddo llwybrau i'r cyhoedd eu defnyddio a chreu hyder wrth ddefnyddio'r rhwydwaith.
- Datblygu a chadw map a datganiad diffiniol cywir.
- Datrws gwrthdar o rhwng defnyddwyr a thirfeddianwyr, ac ar yr un pryd meithrin dealltwriaeth o atebion ymarferol i gynorthwyo tirfeddianwyr a'r cyhoedd er mwyn sicrhau rhwydwaith diogel, didrafferth a hawdd ei ddefnyddio.